**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau 20 Medi 2018**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, 6pm**

**Yn bresennol:** **Yr Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd
Dai Stacey (DS)
Richard Leggett (RL)
Michael Jones (MJ)
Gerald Brown (GB)
Glyn Evans (GE)
Paul Barrett (PB)

**Ysgrifennydd (dros dro)**
Caroline Ferguson - CSC (Rheolwr Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad)

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd**
Jason Lawday – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Russell Jones - Cyfoeth Naturiol Cymru
Andy Firth – TRF
Peter Jones – TRF
Sian Jones - TRF

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Hazel Evans, y Cynghorydd Hughes Griffiths, Ian Jones (CSC), Martin Murray (CSC), Caroline Evans, Geoff Williams, Allan Haskins, Glyn Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru), Tony Rooney.

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

| EITEM | Y CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|
| **Eitem 1 - Gair o groeso a chyflwyniad**<br><br>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a rhoddodd y rhai a oedd yn bresennol (yr uchod) gyflwyniadau o gwmpas y bwrdd | |
| **Eitem 2 - Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau**<br><br>Darllenwyd cais gan Mo Rapley i ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol (LAF). Cafodd ei hethol i'r LAF. Cynigwyd hyn gan MH ac eiliwyd hyn gan DS.<br><br>Angen rhoi gwybod i Mo | **CF** |

| | |
|---|---|
| **Eitem 3 - Ymddiheuriadau**<br><br>Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd. | |
| **Eitem 4 – Ystyriwyd a chymeradwywyd cofnodion 2 gyfarfod y LAF a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2018**<br><br>Cymeradwywyd y cofnodion cyntaf - dim newidiadau<br>Yr ail gofnodion – cafodd newidiadau eu gwneud i'r cofnodion yn ystod y cyfarfod fel y nodwyd gan aelodau.<br>Gwnaeth GW gais am wneud newidiadau i'r cofnodion dros e-bost, a gwneir y newidiadau hyn cyn cyflwyno'r cofnodion i gael eu cyfieithu. | **CF** |
| **Eitem 5 - Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol**<br><br><u>Eitem 7 – Cofnodion</u><br><br>RL - gofynnodd pam nad oes unrhyw gofnodion wedi cael eu rhoi ar wefan y LAF ers mis Medi 2017<br><br>Esboniodd CF fod hyn o ganlyniad i oedi o ran y gwasanaethau cyfieithu. Awgrymwyd y gellid dosbarthu cofnodion yn electronig i sicrhau bod y cyfieithiad a'r gwreiddiol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan yn gynharach.<br><br>Cymeradwywyd yr awgrym gan y fforwm a byddid yn rhoi'r awgrym hwn ar waith<br><br>PB – dywedodd ei bod yn ymddangos bod y ddolen gyswllt a ddarparwyd ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol yn anghywir, a bod y ddolen yn eich tywys at Gynllun Gwella Hawliau Tramwy 2007-2017.<br><br>Angen cywiro hyn<br><br><u>Eitem 9 – Cyfoeth Naturiol Cymru</u><br><br>Bydd MH yn chwilio am e-bost a anfonwyd at Gyfoeth Naturiol Cymru (Glyn Jones)<br><br>RJ - Mae'r cyfarfod rhwng CNC a chynrychiolydd Cymdeithas Ceffylau Prydain ar gyfer Cymdeithas Ceffylau Prydain yn unig<br><br>MH - cynigodd y dylid ymchwilio i weld a fyddai modd trefnu cyfarfod penodol tebyg gyda CNC a'r LAF.<br><br>Dywedodd RJ y byddai'n ystyried y cynnig, ond nid oedd yn credu y byddai hyn yn peri unrhyw broblem. Byddai'n codi'r mater gyda Glyn.<br><br><u>Eitem 9 - Cyfarfod Cadeiryddion y LAF</u><br><br>Cafodd cyfarfod mis Awst Cadeiryddion y LAF ei ganslo. Nid oes dyddiad arall wedi'i bennu ar gyfer y cyfarfod. | **CF**<br><br>**CF** |

| | |
|---|---|
| <u>Eitem 10 - Adroddiad Llwybrau Ceffylau</u><br><br>Dosbarthodd CF yr adroddiad a'r cynllun yn ei ffurf bresennol<br><br>Bydd KB yn trefnu cyfarfod â Lucy Pugh (LP) i drafod y cais ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen, gyda'r nod o ddatblygu cynnwys yr adroddiad, a'i gyflwyno i'r LAF yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Gofynnodd MH am y posibilrwydd o gael map ac adroddiad tebyg o ran Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOATs)?<br><br>Awgrymodd CF fod modd cyflawni hyn, er hynny byddai'n fwy anodd i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth gan fod manylion ynghylch BOATs yn cael eu rhannu rhwng Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus<br><br>Gofynnodd GB a fyddai Ffyrdd Rhufeinig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad?<br><br>CF – dim ond os ydynt wedi'u cofrestru fel BOATs<br><br>Mae gan MH rywfaint o wybodaeth yn dilyn gwaith ymchwil y mae wedi'i gyflawni ei hun ynghylch ffyrdd cyhoeddus hanesyddol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth hon i GB<br><br>Gofynnodd RL a oedd modd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddarparu gwybodaeth debyg ynghylch eu materion.<br><br>Cadarnhaodd CF y bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dechrau llunio adroddiadau yn yr un modd yn y flwyddyn newydd. Mae'r fformat yn anhysbys ond bydd yn rhoi digon o fanylion i'r LAF.<br><br><u>Eitem 18 - Glastir</u><br><br>RL - a allai CNC gyflwyno gwybodaeth am Glastir i'r LAF?<br><br>JG – gallai Glastir newid ar ôl BREXIT, bydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru cyn bo hir.<br><br>RJ - nid yw'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â'r cynllun Glastir, bydd yn dod o hyd i'r person perthnasol ac yn rhoi gwybod i ni<br><br>GB – bydd Glastir yn parhau ar ôl Brexit, gan fod nifer o ffermwyr hanner ffordd drwy'r cynllun 5 mlynedd<br><br>JL - System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS) yn dangos ffermydd Glastir<br><br>DS – mae'n debyg mai nifer fach o broblemau o ran mynediad sy'n deillio o gynllun Glastir.<br><br>CF - gall LP ddangos haen Glastir yn ystod arddangosiad CAMS (yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr ar ôl cael y wybodaeth ddiweddaraf gan CAMS ym mis Hydref). | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>MH |

| | |
|---|---|
| | |
| **Eitem 6 - Y wybodaeth ddiweddaraf gan Dimau Cyfreithiol a Chynnal a Chadw o ran Mynediad i Gefn Gwlad**<br><br>Cadarnhaodd CF nad oedd y lefelau staffio wedi newid ers y cyfarfod ym mis Mehefin.<br><br>Mae'r adrannau cyfreithiol a chynnal a chadw ar fin uno. Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fydd y Cynghorydd Hazel Evans –<br><br>MH yn ceisio caniatâd i ofyn iddi fynychu cyfarfod nesaf y LAF a chyfarfod Pennaeth y Gwasanaeth.<br><br>PB - a ydym yn colli Parcmon?<br><br>CF - Nid oes gennyf fanylion swyddogol eto, ond efallai. | **CF** |
| **Eitem 7 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan yr Ymgynghorydd**<br><br>JL - i'r rhai nad ydynt yn ymwybodol, mae CSC yn defnyddio ymgynghorydd (cytunwyd yn ystod cyfnod o nifer isel o staff) i helpu o ran cyllid a ddyrannwyd nas wariwyd.<br><br>Lluniwyd adroddiad ar gyfer Cardi Bach gan yr ymgynghorydd yn unol ag argymhelliad.<br>Mater yn cael ei ystyried yng Nghyfarfod Penderfyniadau'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, cyhoeddir y penderfyniad o fewn 5 diwrnod.<br><br>MH – a ddylai Burchill fod wedi ymgynghori â'r LAF?<br><br>JL – dim eto – yn dal yn y cyfnod anffurfiol<br><br>JL – Mae'r ymgynghorydd bellach wedi symud ymlaen i Gilffordd Rhydodyn sydd ar agor i unrhyw draffig, sydd ag anghysondebau o ran aliniad/statws.<br><br>PJ – wedi defnyddio'r llwybr.<br><br>KB – wedi reidio ar y llwybr<br><br>RL – Mae sticlau a grisiau ar hyd y llwybr cofrestredig, ni ellir ei ddefnyddio<br><br>CF – yn honni dyma pam y mae'r llwybr yn cael ei archwilio.<br><br>CF - Mae gennym derfyn ar ein gwariant o ran yr Ymgynghorydd ond rydym yn gobeithio y gallwn barhau i'w defnyddio hyd nes bod y gyllideb gymeradwy yn dod i ben.<br><br>JG – beth yw'r sefyllfa o ran archifau? | |

| | |
|---|---|
| JL - Mae'r rhan fwyaf o'r deunydd archif bellach ar gael, ond nid yw'n cael ei storio yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Mae'n debyg bod y rhan fwyaf ohono yn cael ei gadw yn Archifau Morgannwg, yng Nghaerdydd, a bod rhywfaint yn cael ei storio yn Archifau Sir Benfro, yn Hwlffordd. Er ei fod yn beth da bod y deunyddiau bellach ar gael, mae lleoliadau'r deunydd yn golygu y gall gymryd mwy o amser i gael gafael arnynt. Mae'n ymddangos hefyd fod rhai dogfennau ar goll neu wedi'u ffeilio yn anghywir. Bydd mapiau ac atodlenni y Ddeddf Cyllid yn cyrraedd Hwlffordd yn yr wythnosau nesaf. | |

| | |
|---|---|
| **Eitem 8 - Adroddiad ar Faterion**<br><br>RL – roedd wedi rhoi dadansoddiad o ffigyrau'r adroddiad materion a oedd wedi'i ddosbarthu. Siaradodd yn gryno am ei ddadansoddiad a dosbarthwyd hwnnw hefyd. Mae'r materion cynnal a chadw sydd heb eu datrys wedi bod yn sefydlog ar y cyfan. Mae materion cyfreithiol yn parhau i godi. Dros hanner cyfanswm y materion yn faterion hirdymor (dros 3 blynedd).<br><br>CF – gellir priodoli'r materion cyfreithiol sy'n cael eu cofnodi i gyfarfodydd y rhwydwaith priffyrdd ac adroddiadau gwell yn gyffredinol – mae hon yn wybodaeth werthfawr ond yn creu data sy'n ymddangos yn negyddol. Gobeithio y bydd ffigurau mis Rhagfyr yn well, o ystyried y lefelau staffio.<br><br>MH – a oes modd dweud faint o faterion sy'n dod o'r cyhoedd a faint sy'n hunangynyrchedig?<br><br>CF/JL - Ni wyddys yn bendant<br><br>MH - a oes modd i ni gael gwybod?<br><br>Angen gwirio gyda LP<br><br>RL yn bryderus ynghylch nifer yr arwyddbyst sydd ar goll; heb arwyddion Hawliau Tramwy Cyhoeddus, nid oes gan y cyhoedd yr hyder i gerdded ar lwybrau troed. Mae hyn yn creu cylch dieflig hynny yw nid yw pobl yn cerdded ar lwybrau, yna maent yn dirywio, ac felly mae pobl yn ei chael yn anodd i gerdded ar y llwybrau hyn.<br><br>MH – efallai fod gwella arwyddion yn ymarfer addysg i bawb<br><br>RL – Mae'n drueni nad yw Dangosyddion Perfformiad bellach yn ofyniad cenedlaethol, dylai LAF's Cenedlaethol godi'r mater hwn er mwyn rhoi pwysau ar y Gweinidog i adfer y gofyniad.<br><br>Awgrymodd MH roi'r eitem hon ar agenda cyfarfod Cadeirydd y Cadeiryddion LAF | **CF**<br><br>MH |
| **Eitem 9 – Cynnig Penstacan**<br><br>Rhoddodd JL amlinelliad o achos Penstacan i'r grŵp<br><br>MH eisiau cael esboniad o'r ymchwil a'r canlyniadau<br><br>Rhoddodd JL esboniad o'r broses gyfreithiol sydd wrth wraidd nifer o gofrestriadau BOATs a'r problemau yn ymwneud â Penstacan. Mae newid o ran cyfraith achosion (Reubinstein) yn caniatáu i'r achos symud ymlaen, felly dechreuodd JL ar y broses archwilio ac ymchwilio newydd i ddatrys mater o ran "dim llwybr trwodd". Ymgynghoriad newydd<br><br>MH yn pryderu y gallai hyn osod cynsail o ran ailddosbarthu BOATs.<br><br>JL – mae hyn yn unigryw i Penstacan oherwydd y ddogfennaeth sydd ar gael. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw sefyllfa debyg arall.<br><br>MH – A all LAF gyflwyno sylwadau ar y cyd? A allan nhw gytuno? | |

| | |
|---|---|
| KB yn cytuno ei fod yn annhebygol y bydd LAF yn dod i gytundeb, bydd marchogion yn cael gwybod am yr ymgynghoriad<br><br>RL yn cynnig y dylid cyflwyno'r achos i grwpiau unigol, ni fydd LAF yn gwneud sylwadau.<br><br>Pawb yn cytuno.<br><br>** Dileu oddi ar yr Agenda | |
| **Eitem 10 - Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth**<br><br>Cyfarfod nesaf ar 7 Tachwedd. Cyflwynodd y grŵp awgrymiadau o ran eitemau ar gyfer yr agenda:<br><br>1. Parhau i ddefnyddio ymgynghorydd/ymgynghorwyr<br>2. Adroddiadau ar faterion<br>3. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy<br>4. Llwybr Dyffryn Tywi<br>5. Cyllid ar gyfer BOATs – Cyfraniad yr adran Priffyrdd?<br>6. Pa mor gyflym y mae cofnodion LAF a dogfennau eraill LAF yn cael eu cyfieithu ac yn ymddangos ar y wefan<br>7. Cytundeb Dirprwyo<br>8. Cynhadledd Materion Gwledig, popeth sy'n ymwneud â chefn gwlad / gwahodd unrhyw un?<br>9. Gweithgaredd mapio BOATs a Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus<br>10. Gwirfoddolwyr | **CF** |
| **Eitem 11 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**<br><br>Rhoddodd CF y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp - drafft o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, ac mae'n rhaid ei gyflwyno i Rag-gyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 8 Hydref a'r Bwrdd Gweithredol yn ddiweddarach yn y mis i'w gymeradwyo. Os caiff y cynllun ei gymeradwyo heb unrhyw newidiadau, gellid ei gyfieithu a'r gobaith yw y bydd yn destun ymgynghoriad statudol am 12 wythnos, drwy gydol mis Rhagfyr, Ionawr a Chwefror.<br><br>Y nod yw cwblhau hyn erbyn tua 31 Mawrth 2019 (diwedd blwyddyn ariannol 2018) ond bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn pennu pa mor gyflym y gellid cwblhau a chyhoeddi'r ddogfen. | |
| **Eitem 12 – Mynediad at Ddŵr at Ddibenion Hamdden, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a Chynrychiolaeth LAF**<br><br>Darllenodd MH lythyr a gafodd gan Canŵ Cymru<br><br>Dywedodd CF fod mynediad at ddŵr at ddibenion hamdden o fewn maes gorchwyl y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, felly bydd angen i ni gyfeirio ato yn ein cynllun diwygiedig ar ôl ymgynghori yn ei gylch. | |

| | |
|---|---|
| MH – Na ddylem ofyn i Steve pwy sy'n cynrychioli Sir Gâr?<br><br>JG - A ddylai pysgotwyr gymryd rhan?<br><br>DS – Byddai anghytuno rhwng pysgotwyr a'r canŵyr, rhwyfwyr ac ati.<br><br>RL - gofyn i Canŵ Cymru awgrymu aelod posibl ar gyfer LAF Sir Gâr?<br><br>CF – Ymgynghorai y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hefyd?<br><br>Dywedodd MH fod yr un peth yn wir o ran clybiau/grwpiau pysgota, angen aelod o'r LAF ac ymgynghorai Cynllun Gwella Hawliau Tramwy<br><br>Gall Canŵ Cymru fod yn ymgynghorai ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gall gynnig aelodau perthnasol ar gyfer Aelodaeth y Fforwm a/neu ymgynghoriadau os oes ganddynt rywun. | **CF/Capita** |
| **Eitem 13 – Y Wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Llwybr Dyffryn Tywi (TVP)**<br><br>Cododd MH gwestiynau ynghylch: cyllideb ac amserlenni, nid oedd y diweddariad ysgrifenedig yn cynnig atebion<br><br>KB – rydym angen rhagor o fanylion ynghylch trefniadau cynnal a chadw parhaus<br><br>KB - a yw'r holl waith yn cael ei gynnal ar y ffordd hyd yn hyn?<br><br>DS – na, mae'n defnyddio rhan o ffordd ddi-ddosbarth dawel, ond mae oddi ar y ffordd yn bennaf.<br><br>JL – mae'r gwaith wedi'i gwblhau yng ngorsaf betrol Felin-wen<br><br>JG – a yw beicwyr yn cael eu cyfeirio ar hyd ffyrdd?<br><br>DS – un ran o lôn dawel, nid yr A40.<br><br>MH – A allwn ni ofyn i Sam ddod i gyfarfod nesaf y LAF i roi cyflwyniad ar y prosiect hyd yn hyn?<br><br>CF – mae hynny'n rhywbeth y dylid codi yng nghyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth.<br><br>DS – bydd pob gweithgaredd ychwanegol o ganlyniad i Lwybr Dyffryn Tywi yn creu manteision iechyd i'r boblogaeth<br><br>CF – mae hefyd yn atyniad arall ar gyfer ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin | |
| **Eitem 14 Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus**<br><br>Nid yw MH wedi mynd â'r mater hwn ymhellach ers mis Mehefin. | **CF** |

| | |
|---|---|
| Dyddiad posibl ar gyfer y cyfarfod cyntaf yw 21 Tachwedd 2018 ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr am 12pm. Mae angen archebu ystafell gyfarfod ac anfon gwahoddiadau yn syth ar ôl cadarnhau lleoliad.<br><br>MH - Pwy hoffai gymryd rhan? Angen cynrychiolwyr marchogaeth, beiciau modur, 4x4…<br><br>(1) **RL**<br>(2) **MH**<br>(3) **KB**<br>(4) **JG**<br>(5) **PJ**<br>(6) **MJ**<br>(7) **Cynrychiolydd Cerddwyr Llanelli**<br>(8) **Cynrychiolydd CSC - JL**<br><br>PJ - agwedd tuag at ddefnyddwyr cerbydau modur yn well mewn mannau eraill. Yn Ynys Manaw, caniateir beiciau modur ar bob llwybr sy'n helpu i'w cadw'n glir. Dylai defnyddwyr helpu ei gilydd.<br><br>JG - gallai beiciau gwlad gyflawni arolygon cyflwr yn gyflym<br><br>Dywedodd MH a KB y byddai angen arnynt y ffurflenni arolwg y cytunwyd arnynt.<br><br>MH – angen cael cyfarfod yn gyntaf i ddechrau ar y broses.<br><br>RL – a oes gennym Lwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus ar y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad i'w dehongli fel rhan o'r ymarfer? A ddylai'r adran Priffyrdd fod yn bresennol?<br><br>CF - mae Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus ar haen y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad ond nid ydynt yn bendant oherwydd nid hynny yw'r cofnod cyfreithiol perthnasol ac nid oes unrhyw ddata yn cael ei gadw amdanynt y gellir ei gasglu.<br><br>MH – Dylid cysylltu â'r adran priffyrdd yn ddiweddarach os teimlir bod ei hangen.<br><br>JG - Dylid rhoi gwybod i'r adran priffyrdd am yr ymarfer<br><br>CF – Bydd yn ychwanegu hyn at agenda y Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn hysbysu.<br><br>Bydd MH yn rhoi trefn ar ei daenlen ynghylch rhwydwaith BOATs cyn y cyfarfod grŵp ac yn ei hanfon at KB ymlaen llaw. | |
| **Eitem 15 – Gwirfoddolwyr**<br><br>Darllenodd CF y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm cynnal a chadw ynghylch gwirfoddolwyr, a ddarparwyd yn absenoldeb MM.<br><br>Ychwanegodd CF wybodaeth am y trefniant diweddar o ran gwirfoddolwyr, a drefnwyd â Cymoni eich Cymuned a Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'n rhy gynnar adrodd ar lwyddiant y cynllun ond mae'n gynllun addawol.<br><br>Efallai y bydd gan TRF ddiddordeb mewn gwirfoddoli fel grŵp. | **MM** |

| | |
|---|---|
| Bydd MM yn mynd ar drywydd hyn – cysylltwch â PJ | |
| **Eitem 16 – Pontydd**<br><br>Darllenodd CF y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm cynnal a chadw ynghylch pontydd, a ddarparwyd yn absenoldeb MM.<br><br>MH – a ellir darparu tabl i'r LAF yn nodi'r gwaith arfaethedig ar bontydd a chyfeirnodau grid?<br><br>KB – a all y tîm cynnal a chadw ddarparu dull o ran sut i wneud cais am bontydd ar gyfer y LAF? | **MM**<br><br>**MM** |
| **Eitem 17 – Llwybr Arfordir Cymru**<br><br>Darllenodd CF y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm cynnal a chadw ynghylch Llwybr Arfordir Cymru, a ddarparwyd yn absenoldeb MM.<br><br>DS – arwyddion wedi'u goleuo wrth ymyl y ffordd ddim yn gweithio<br><br>Angen rhoi gwybod i'r tîm Rheoli Traffig am hyn gan ei fod yn gyfrifol am yr arwyddion | **CF** |

| | |
|---|---|
| **Eitem 18 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol**<br><br>1. Dangos y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (LP)<br>2. Cyflwyniad ynghylch Materion Gwledig (CNC)<br>3. Canŵ Cymru – efallai'n bresennol<br>4. Cyflwyniad ar Lwybr Dyffryn Tywi (SP)<br>5. Llinellau melyn dwbl ym Mhen-bre<br>6. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus Fferm Wynt Brechfa (RJ) | |
| **Eitem 19 - Unrhyw Fater Arall**<br><br>MH – yn llongyfarch Sir Gaerfyrddin ar ei threfniadau ar gyfer Taith Prydain<br><br>Bydd CF yn trosglwyddo'r neges hon at y tîm Priffyrdd a Thrafnidiaeth<br><br>Bydd CF yn dosbarthu'r diweddariadau ysgrifenedig am gynnal a chadw a ddarllenwyd yn y cyfarfod<br><br>KB – Llinellau melyn dwbl ym Mharc Gwledig Pen-bre, ond methu â pharcio ar ôl prynu trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru<br><br>MH yn cynnig bod y LAF yn cefnogi marchogion o ran eu gwrthwynebiad i'r linellau – oni bai bod darpariaeth amgen ar gyfer parcio ar gael<br><br>Eiliodd GB y cynnig<br><br>MH – newyddion da, bydd y gyllideb o 16K yn cael ei wario ar 5 lwybr i gerbydau yn seiliedig ar awgrymiadau MH/KB. A all Alan roi gwybod i'r LAF pan fydd gwaith yn cael ei gyflawni fel y gellid gofyn i ddefnyddwyr gadw draw?<br><br>Mae DS wedi siarad â phobl mewn gwledydd eraill sydd wedi defnyddio rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y DU/Cymru ac wedi sôn pa mor bleserus/gwerthfawr ydyw.<br><br>PJ – yn yr un modd, mae ymwelwyr â Sir Gaerfyrddin yn dweud wrth TRF eu bod yn gwerthfawrogi'r rhwydwaith<br><br>JG – Angen mynd i'r afael â'r broblem o ran Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn Fferm Wynt Brechfa. Bydd yn cael effaith ar y grwpiau defnyddwyr gwahanol. Mae agosrwydd y tyrbinau at y mynediad cyhoeddus yn peryglu yswiriannau unigol. A all y LAF siarad â CNC?<br><br>Cadarnhaodd RJ mai ef fyddai'r cyswllt ar gyfer hyn<br><br>Bydd JG yn anfon llythyr/e-bost at RJ | <br><br><br><br>**CF**<br><br>**CF**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**CF/MM** |
| **Eitem 20 - Y Cyfarfodydd Nesaf**<br><br>6 Rhagfyr 2018 – Canolfan Tywi, Llandeilo.<br>7 Mawrth 2019 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin<br>6 Mehefin 2019 – Canolfan Tywi, Llandeilo<br>19 Medi 2019 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin | |

| | |
|---|---|
| 5 Rhagfyr 2019 – Canolfan Tywi, Llandeilo. | |